**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref SF/MD/0537/14

David Rees AC
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

19 Chwefror 2014

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Ionawr 2014 a oedd yn cynnwys amlinelliad o'r gwaith dilynol gan y Pwyllgor.

Mae Atodiad 1 yn rhoi fy ymateb i argymhellion a safbwyntiau'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â lleihau'r risg o strôc.

Cofion cynnes

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Service

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford @wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Lleihau'r risg o strôc – ymchwiliad dilynol – Ymateb Llywodraeth Cymru**

<table>
<tr><th>Argymhelliad</th><th>Ymateb</th></tr>
<tr><td>Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amserlen, o fewn chwe wythnos i dderbyn y llythyr hwn, sy'n nodi'n glir pryd y mae'n disgwyl cyflawni argymhellion y Pwyllgor, y derbyniodd bob un ohonynt - o leiaf mewn egwyddor - ym mis Rhagfyr 2011.</td><td>Gwrthod<br>Rydym yn cytuno â'r farn yn yr argymhelliad ond nid ydym yn teimlo bod angen cyhoeddi amserlen, yn ôl yr awgrym, yng ngoleuni'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Strôc ym mis Rhagfyr 2012. Roedd hwn yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac yn rhoi amserlen ar gyfer gwella'r risg o strôc.<br><br>Ym mis Hydref 2013 cyhoeddwyd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gynnydd y cynllun hwn, a bydd yn parhau i gael ei gyhoeddi'n flynyddol.<br><br>Felly mae gan y Llywodraeth gyfres o gamau gweithredu clir y mae'n atebol amdanynt ac rydym am osgoi unrhyw ddyblygu a chymhlethu o ran y gwahanol amserlenni.<br><br>Mae'r argymhellion wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni, fel y nodir isod:<br><br>Mae Argymhelliad 1 o Adroddiad gwreiddiol y Pwyllgor yn cyfeirio at gynnal gwerthusiad o'r Cynllun Gweithredu i Leihau'r Risg o Strôc a defnyddio hyn i lywio'r Cynllun Cyflawni. Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y gwerthusiad ac fe'i defnyddiwyd i lywio'r camau gweithredu o fewn thema Cyflawni 1 y cynllun atal strôc.<br>Mae Argymhelliad 2 yn cyfeirio at atal strôc eilaidd a'r diagnosis o isgemia dros dro (TIA). Mae pwyslais drwy'r cynllun ar atal strôc a threfniadau priodol rhyddhau pobl o'r ysbyty a fyddai'n cynnwys darparu cyngor ar atal strôc eilaidd. Mae gan thema cyflawni 2, sef canfod strôc yn gyflym, gam gweithredu'n benodol ar ddarparu gwasanaethau TIA sy'n hollol weithredol am 7 diwrnod yr wythnos.<br>Mae argymhelliad 3 yn cyfeirio at fynediad i wasanaethau TIA ac endarterectomi carotid. Fel y dywedwyd uchod mae hyn yn cael ei gynnwys thema cyflawni 2 a hefyd o fewn thema cyflawni 3, gan ddarparu gofal cyflym ac effeithiol sydd â cham gweithredu'n benodol ar ddarparu mynediad i lawdriniaeth fasgwlaidd ar gyfer ymyrraeth garotid o fewn yr amserlenni a nodir mewn canllawiau cenedlaethol.<br>Mae argymhellion 4 a 5 yn ymwneud â chanfod a thrin ffibriliad atrïaidd – sydd</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | wedi'i gynnwys yn thema cyflawni 1 a'i amlygu fel ffactor risg penodol sy'n rhaid ei reoli'n unol â chanllawiau NICE. |
| **Safbwyntiau** | **Ymateb** |
| 1. Mae'n glir bod cefnogaeth gref i'r syniad o sefydlu rhwydwaith clinigol cenedlaethol ar gyfer strôc, a bod consenswys rhwng y tystion y gallai Cynghrair Strôc Cymru ffurfio rhwydwaith o'r fath pe bai ganddo'r adnoddau priodol. Er ein bod yn croesawu bwriad y Gweinidog i ystyried rhwydwaith strôc yng nghyd-destun y gwaith sy'n mynd rhagddo i archwilio patrwm rhwydweithiau a'u heffeithiolrwydd yn fwy cyffredinol, byddai'r Pwyllgor yn annog y Llywodraeth i fwrw ati'n fuan â'r archwiliad hwn er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon ynghylch diffyg arweinyddiaeth ac atebolrwydd yn gyflym. Gofynna'r Pwyllgor fod y Gweinidog yn cynnwys amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith ar rwydweithiau clinigol o fewn yr amserlen ehangach y gofynnir amdani yn ein llythyr uchod. | Rwy'n cytuno bod angen inni sicrhau bod adolygiad ehangach o'r rhwydwaith yn cael ei gwblhau'n gyflym er mwyn darparu sicrwydd a chydgysylltiad cenedlaethol o ran gwasanaethau hanfodol, fel gofal strôc, ac er mwyn sicrhau cydlyniaeth â'r adolygiad parhaus o strwythurau cynghori proffesiynol.<br><br>Mae swyddogion wrthi'n cynnal trafodaethau ag arweinydd y GIG ar gyfer yr adolygiad o'r rhwydwaith, y Prif Weithredwr Adam Cairns, ynghylch amserlenni manwl. Rwy'n disgwyl y bydd argymhellion yr adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno erbyn 31 Mai 2014. |
| 2. Mae'n glir o'n hymchwiliad a'r gwaith dilynol a wnaed bod y data sydd ar gael ynghylch cleifion strôc a gofal strôc yn annigonol. Mae angen y data hwn i lywio datblygiadau i'r gwasanaeth. Nid oes digon o bobl yn cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol i roi darlun cywir o berfformiad, ac er y cedwir rhywfaint o ddata yn lleol (e.e. ynghylch pyliau o isgemia dros dro a ffibriliad atrïaidd), ymddengys nad yw'n cael ei adrodd na'i rannu fel mater o drefn. Nid yw'r problemau o ran casglu a rhannu data, a'r niferoedd isel sy'n cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol, yn | Ym mis Ebrill 2011 sefydlwyd y Pwyllgor Cynghori ar Ganlyniadau ac Adolygu Archwiliad Clinigol Cenedlaethol.<br><br>Mae'n gweithio tuag at gyflawni amcanion y gyfres hon o safbwyntiau. Ei nod yw darparu cyngor ar gyfranogiad a pherfformiad Cymru yn y Rhaglen Canlyniadau Cleifion ac Archwiliad Clinigol Cenedlaethol, a gwneud y mwyaf o fanteision archwiliadau ac adolygiadau drwy annog dysgu eang er mwyn gwella ansawdd a diogelwch triniaethau a gofal y claf.<br><br>Ers ei sefydlu ym mis Ebrill 2011, mae'r Pwyllgor wedi:<br><br>Annog Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i wella eu perfformiad mewn Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiadau o Ganlyniadau. |

| | |
|---|---|
| unigryw i'r ymchwiliad hwn. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid bwrw ati'n fuan i wella'r gwaith o gasglu data, hwyluso'r broses o rannu data, ac annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn archwiliadau clinigol, fel rhan o'r broses o gyflwyno'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Strôc. At hynny, gwnaethom argymell y dylid ystyried datblygu cofrestr strôc i Gymru. | Annog Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i benodi arweinydd clinigol i bob Archwiliad Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiad o Ganlyniadau<br>Cyhoeddi dau Gynllun Blynyddol Archwiliad Clinigol Cenedlaethol ac Adolygiad o Ganlyniadau (NCA&OR)<br>Cynnal dau Weithdy Blynyddol Cymru Gyfan (ar y cyd â 1000 o Fywydau a Mwy)<br>Cyhoeddi pump e-Fwletin NCA&OR<br>Rhoi gwybodaeth ar wefan E-lawlyfr Llywodraethu http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/<br>Wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau ffurflen "Sicrwydd" safonol i'w defnyddio gan yr holl Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau.<br>Darparu cymorth a gwybodaeth o archwiliadau i'w cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru "Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol". http://mylocalhealthservice.wales.gov.uk/#/cy<br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau wedi ymweld â'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i gyfarfod â Rheolwyr Gyfarwyddwyr ac arweinwyr Archwiliadau Clinigol / Gwella Ansawdd i drafod eu gweithgareddau NCA&OR.<br><br>Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau bod archwiliad yn rhan hanfodol o'r cylch gwella ansawdd, gan annog cyfranogiad mewn archwiliad a chyhoeddi canlyniadau'r archwiliad yn dryloyw.<br><br>Rwyf wedi gofyn i'r Grŵp Gweithredu Strôc ystyried manteision sefydlu cofrestr strôc i Gymru. |
| 3. Noda'r Pwyllgor mai un o themâu allweddol adolygiad Greenaway o hyfforddiant meddygol yw'r newid pwyslais oddi wrth arbenigaeth tuag at ddull gweithredu mwy cyffredinol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog am sut y mae'n bwriadu ystyried y gweithlu strôc yn y cyd-destun hwn, a pha gamau penodol y mae'n eu cymryd i sicrhau bod nifer ddigonol o glinigwyr sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddarparu | Wrth ganolbwyntio ar yr angen i symud tuag at hyfforddiant meddygol mwy cyffredinol, mae adolygiad Greenaway hefyd yn cydnabod yr angen am arbenigaeth. Sefydlwyd grŵp ar gyfer y DU gyfan i ystyried yr adolygiad yn fanylach ac i nodi amserlenni ar gyfer gweithredu. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp hwn ar 4 Chwefror. Trafodwyd ystod o faterion a bydd angen rhoi sylw i'r rhain fel rhan o unrhyw gynlluniau yn y dyfodol ac mae'n debygol y bydd rhai misoedd yn mynd heibio cyn cytuno ar y ffordd ymlaen.<br><br>Rwy'n disgwyl y bydd y Byrddau Iechyd Lleol yn ystyried materion y gweithlu ar draws yr holl broffesiynau fel rhan o'u gwasanaethau cynllunio a chyflenwi arferol. |

| | |
|---|---|
| gwasanaethau strôc o safon yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. | |
| 4. Mae'n peri pryder i'r Pwyllgor bod mynediad at wasanaethau ar gyfer pyliau o isgemia dros dro yn anghyson ledled Cymru, bron 18 mis ar ôl i'r Llywodraeth gyhoeddi ei disgwyliad. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am ba gamau adferol sy'n cael eu cymryd yng ngogledd Cymru i fynd i'r afael ag oedi yn ardal Betsi Cadwaladr, a gofynnwn am fanylion gan y Gweinidog – fel rhan o'r amserlen y gofynnir amdani yn ein llythyr uchod – ynghylch pryd y bydd gwasanaethau ar gael ledled Cymru o fewn yr amser targed. At hynny, gofynnwn am syniad bras o'r camau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd os bydd y Byrddau Iechyd yn methu â bodloni'r targedau hyn erbyn y terfynau amser a nodir yn ei ymateb i'r llythyr hwn, sydd i ddod. | Mae pob Bwrdd Iechyd, ac eithrio Betsi Cadwaladr, wedi cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â gofyniad y gyfres wreiddiol o argymhellion i gael gwasanaeth TIA yn ei le o fis Ebrill 2012. Byddai'r gwasanaeth hwn yn rhoi'r gallu iddynt roi mynediad i asesiad risg uchel o TIA o fewn 24 awr.<br><br>Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau strôc ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a oedd yn cwmpasu'r wythnos gyntaf o ofal, gan gynnwys TIA. Mae argymhellion ar gyfer gwella'n cynnwys mynediad i asesiadau 7 diwrnod yr wythnos. Disgwylir gwelliannau sylweddol mewn gofal strôc erbyn diwedd Ebrill 2014 a gwasanaeth TIA llawn erbyn mis Hydref 2014. |
| 5. Mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud wrth wella cydymffurfiaeth â chanllawiau clinigol o ran endarterectomi carotid ers i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ddwy flynedd yn ôl. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael eglurhad gan y Gweinidog ynghylch yr amserau targed y mae'n disgwyl i gleifion gael ymyrraeth garotid yn unol â hwy, a chadarnhad o'r terfyn amser erbyn pryd y mae'n disgwyl i'r Byrddau Iechyd fodloni'r targedau hynny. Gofynna'r Pwyllgor am syniad bras o'r camau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd os na fydd y Byrddau Iechyd yn bodloni'r disgwyliadau a amlinellir ganddo yn hyn o beth. | Cyflwynwyd papur ar ganlyniadau Rownd 5 Archwiliad Endarterectomi Carotid (CEA) a'i rannu o fewn Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at y cynnydd gwael yn y maes hwn. Mewn ymateb i lythyr gan y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol a anfonwyd ym mis Hydref 2013, rydym wedi cael cadarnhad gan y pum Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru sy'n trin cleifion CEA fod camau'n cael eu cymryd i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni amserlenni o 7 a 14 diwrnod o ran darparu llawdriniaeth. Rydym hefyd wedi cael sicrwydd ganddynt y byddant yn cymryd rhan lawn yn yr archwiliad yn y dyfodol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad arferol.<br><br>Cydnabuwyd bod angen adolygu a gwella'r llwybr gofal cyfan, o'r symptom cyntaf i'r llawdriniaeth. Caiff y mater hwn ei drafod mewn cyfarfod o Gynghrair Strôc Cymru ddiwedd Chwefror, a chynhelir sesiwn hanner diwrnod ar ymyrraeth garotid yng Nghynhadledd Strôc Cymru ym mis Mehefin. |

| | |
|---|---|
| 6. Nid yw'n glir pa gynnydd a wnaed o ran canfod, trin a rheoli ffibriliad atrïaidd. At hynny, ymddengys nad oes dull cyson yn cael ei ddefnyddio i brofi pwls pobl â llaw mewn gofal sylfaenol. Mae angen mynd ati mewn modd mwy strategol a chydgysylltiedig i ddatblygu dulliau i ganfod a thrin ffibriliad atrïaidd yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan NICE, mewn gofal sylfaenol a gofal eilaidd, a dylai hynny gynnwys ystyried y rhai sy'n dioddef o'r math o ffibriliad atrïaidd nad yw prawf pwls syml yn unig yn ddigon i'w ganfod. Mae'r Pwyllgor yn aros i glywed canlyniadau'r adolygiad o sgrinio ar gyfer ffibriliad atrïaidd a gynhaliwyd gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU. | Bydd cynlluniau cyflawni lleol y Byrddau Iechyd yng Nghymru ar gyfer Strôc yn ymdrin â thrin a rheoli ffibriliaid atrïaidd (AF). Bydd dull strategol a chydgysylltiedig yn ei le ar draws Cymru erbyn mis Hydref 2014. Yna bydd byrddau iechyd yn gweithredu’r dull strategol hwn o fis Hydref 2014 ymlaen.<br><br>Mae adolygiad sgrinio Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ar gyfer AF yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a rhagwelir y caiff yr adolygiad ei gwblhau erbyn Mai 2014.<br><br>Yn ddiweddar, rwyf wedi ystyried cynnig gan y Gymdeithas Strôc sy’n ymwneud â rhaglen beilot gyda fferyllfeydd cymunedol i ganfod AF yn y gymuned, ac rwyf wedi cytuno i helpu. |
| 7. Mae angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ffactorau sy'n peri risg o strôc o hyd, gan gynnwys ffibriliad atrïaidd a phyliau o isgemia dros dro. Mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw yn y gorffennol at werth ymgyrchoedd cymunedol o ran codi ymwybyddiaeth a chanfod pobl sy'n wynebu risg o strôc, ac mae'r angen i barhau ag ymgyrchoedd llwyddiannus (fel FAST) yn glir. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu syniad bras gan y Gweinidog o'r cynlluniau sydd ar waith ar gamau pellach i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risg o strôc a sut i'w atal (yn ogystal â symptomau strôc), ac a oes unrhyw waith penodol yn mynd rhagddo i dargedu pobl ifanc yn ogystal â'r genhedlaeth hŷn. | Rwy’n cydnabod yr angen i ddal ati i godi ymwybyddiaeth o’r ffactorau sy’n peri risg o strôc ymysg y cyhoedd. Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgyrchoedd iechyd cenedlaethol, rhoddir blaenoriaeth yn 2014/15 i godi ymwybyddiaeth o strôc.<br><br>Bydd fy swyddogion yn ystod y misoedd nesaf yn gweithio’n agos ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau trydydd sector i ddarparu ymgyrch wedi’i thargedu. |